Creu **nyth cacwn**

Beth am wenu ar wenyn? Mae breninesau cacwn yn chwilio am nyth i fagu eu plant. A gallwch chi greu un iddyn nhw!

Byddwch angen

- Potyn blodau clai tua 20cm ar draws y top
- Teilsen neu lechen
- Darn o bibell ddŵr hanner metr o hyd
- Siswrn
- Gwellt, gwair neu ddefnydd gwely anifail anwes

1 Palwch dwll ddigon mawr fel pan fo'r potyn wyneb i waered bydd traean ohono yn y twll.

2 Palwch ffos fach tua 10cm o ddyfnder a thua 20cm o hyd.

3 Rhowch wair, gwellt neu ddefnydd yn y potyn fel ei fod tua thraean llawn.

4 Gofynnwch i oedolyn dorri tyllau bychan yn y bibell ddŵr gyda siswrn ar hyd un ochr. Bydd rhain yn gadael i ddŵr ddraenio ohono.

5 Rhowch un pen o'r bibell yn y potyn, yna'n ofalus trowch y potyn wyneb i waered i mewn i'r twll, gan adael gweddill y bibell yn gorwedd ar waelod y ffos (gyda'r tyllau ar y gwaelod).

6 Claddwch rhan fwya'r bibell mewn pridd, gan adael y pen yn sefyll allan o'r tir rhyw fymryn. Dyma fynedfa'r gwenyn.

Cadw'n ddiogel.

Gobeithio y daw gwenynen neu gacynen i letya. Peidiwch â phoeni y byddan nhw'n eich pigo chi – os na wnewch chi niwed iddyn nhw, wna nhw ddim byd i chi.

rspb yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Nick Cunard (rspb-images.com).